

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

Julie James

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

22 Mawrth 2021

1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 (“y Rheoliadau”) yn sefydlu’r gofynion gweithdrefnol ar gyfer paratoi, monitro ac adolygu Cynlluniau Datblygu Strategol (“CDSau”).

1.2 Mae’r Rheoliadau hyn yn darparu manylion am y camau allweddol, y gweithdrefnau a’r trefniadau ymgynghori y mae’n rhaid i Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu dilyn wrth baratoi CDS. Maent hefyd yn cynnwys y gofynion paratoi, archwilio, monitro ac adolygu ar gyfer CDSau a materion cysylltiedig. Maent hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnwys, argaeledd a chyhoeddi dogfennau perthnasol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

3. Cefndir Deddfwriaethol

3.1 Mae adran 88 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“Deddf 2021”), ac Atodlen 9 iddi, yn diwygio Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (“Deddf 2004”) mewn perthynas â darpariaethau cynllunio strategol. Mae’r diwygiadau hyn yn cynnwys diddymu adrannau o Ddeddf 2004 a ddarparodd ar gyfer llunio CDSau gan Baneli Cynllunio Strategol.

3.2 Mae Deddf 2021 yn gwneud darpariaeth ar gyfer creu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae ganddynt sawl swyddogaeth, gan gynnwys paratoi CDS ar gyfer eu hardaloedd (gweler adran 60M o Ddeddf 2004 fel y’i mewnosodwyd gan adran 88 o Ddeddf 2021, a pharagraff 4 o Atodlen 9 iddi).

3.3 Mae 60M(2) o Ddeddf 2004 yn darparu bod yn rhaid i CDSau nodi amcanion y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yn ei ardal a pholisïau’r CBC i weithredu’r amcanion hynny. Mae adran 60M yn nodi’r gofynion y mae’n rhaid i’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig roi sylw iddynt wrth baratoi CDS ar gyfer eu hardal.

3.4 Mae’r Rheoliadau hyn yn nodi gofynion gweithdrefnol a materion cysylltiedig eraill mewn perthynas â pharatoi ac adolygu CDSau. Mae Deddf 2004 (fel y’i diwygiwyd) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud y Rheoliadau hyn. Gwneir y

Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru drwy'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2004:

- Adrannau 122 (1), (2) a (3)
- Adrannau 60M(5) a (6)(f)
- Adran 63(3)(a) a (7)
- Adran 64(3)
- Adrannau 66A(6)(b), (8) a (9)
- Adrannau 69(1)(b) a (3)
- Adrannau 76(2) a (3)
- Adran 77(1)

3.5 Trosglwyddwyd swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn adrannau 63, 64, 69, 76, 77 a 122 i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, gyda'r swyddogaethau yn swyddogaethau perthnasol y Cynulliad fel y'u diffiniwyd ym mharagraff 30(2).

3.6 Mae'r Rheoliadau yn dilyn y weithdrefn negyddol ac felly maent yn ddarostyngedig i ddirymiad drwy benderfyniad. Byddant yn dod i rym ar yr un pryd â'r rheoliadau sy'n rhoi cyfrifoldeb am gynllunio strategol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig (28 Chwefror 2022).

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cefndir a diben

4.1 Bydd Rheoliadau a wneir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu bod yn rhaid i Gyd-bwyllgorau Corfforedig lunio CDS ar gyfer eu hardal ddaearyddol. Diben y ddeddfwriaeth hon yw nodi'r gweithdrefnau ar gyfer llunio cynllun y mae'n rhaid i Gyd-bwyllgorau Corfforedig eu dilyn wrth arfer y swyddogaeth hon.

Risgiau

4.2 Os na chaiff rheoliadau CDS eu gwneud, ni fydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gallu arfer eu swyddogaeth cynllunio strategol a llunio CDS. Mae angen y rheoliadau i weithredu a chyflawni darpariaethau cynllunio strategol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig 2021 ("Rheoliadau CBC") cysylltiedig.

Sail resymegol am y polisi

4.3 Mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn darparu fframwaith cyson i ddarparu trefniadau gweithio rhanbarthol mwy syml a chyson ledled Cymru. Bwriad y polisi mewn perthynas â CDSau yw cyflwyno dull mwy strategol o lunio cynlluniau ar raddfa sy'n fwy na Chynllun Datblygu Lleol ("CDLI") unigol. Nodwyd bod angen gwella'r ffordd y mae'r system gynllunio yn mynd i'r afael â materion sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol, i adlewyrchu sut mae pobl yn byw eu bywydau heddiw ac yn y dyfodol.

4.4 Bydd CDSau yn galluogi dull mwy cyson, cost effeithiol ac effeithlon o lunio cynlluniau, gyda phenderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud unwaith ar y lefel strategol. Bydd hyn yn caniatáu cynllunio ar gyfer materion mwy na materion lleol fel creu lleoedd, niferoedd tai, dyraniadau strategol o ran tai'r farchnad agored a thai fforddiadwy, safleoedd cyflogaeth strategol, seilwaith gwyrdd strategol sy'n cefnogi seilwaith trafndiaeth gynaliadwy sy'n croesi nifer o ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau), mewn ffordd integredig a chynhwysfawr. Bydd hyn yn arwain at ganlyniadau cynllunio mwy effeithlon ac effeithiol i gymunedau, a bydd yn ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau ariannol ac adnoddau staffio ACLlau.

Crynodeb o'r darpariaethau a'u bwriad

4.5 Mae crynodeb o gamau allweddol llunio CDS a darpariaethau'r rheoliadau i'w gweld ym mharagraffau 4.6 i 4.11 fel a ganlyn:

4.6 Mae **Rhan 1** yn ymdrin â materion cyffredinol, gan gynnwys cymhwyso'r rheoliadau, dehongli'r termau a defnyddio cyfathrebiadau electronig. (rheoliadau 1 i 3)

4.7 Mae **Rhan 2** yn ymdrin â llunio ac adolygu'r CDS a gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r canlynol:

- Pennod 1: Y dogfennau sydd i'w darparu a dynodi cyrff ymgynghori (rheoliadau 4 i 6)
- Pennod 2: Y Cytundeb Cyflawni – mae hyn yn nodi'n ffurfiol dechrau'r gwaith o lunio CDS ac mae'n cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau sy'n manylu pryd a sut y bydd rhanddeiliaid yn rhan o'r broses a'r amserlen ar gyfer paratoi CDS (rheoliadau 7 i 12);
- Pennod 3: Ffurf a chynnwys CDS a materion cysylltiedig sy'n cynnwys y gofynion sylfaenol o ran cynnwys a mapiau cysylltiedig, ac mae'n nodi'r materion ychwanegol y mae'n rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig roi sylw iddynt (rheoliadau 13 i 15);

- Pennod 4: Y weithdrefn cyn adneuo – sy'n cynnwys llunio cynigion cychwynnol, gofyn am safleoedd a lleoliadau strategol i'w hystyried, a'r gofynion o ran y ddogfennaeth a'r broses ymgynghori, cyhoeddi ac ymgysylltu mewn perthynas â'r cynigion hynny (rheoliadau 16 i 19);
- Pennod 5: Y weithdrefn adneuo – sy'n cynnwys y gofynion o ran y ddogfennaeth a'r broses ymgynghori, cyhoeddi ac ymgysylltu ar y CDS, gan gynnwys darpariaethau ynghylch cynnwys yr adroddiad ymgynghori cychwynnol (rheoliadau 20 i 22);
- Pennod 6: Cyflwyno CDS i'w archwilio gan berson a benodwyd gan Weinidogion Cymru – darpariaethau yn nodi gofynion o ran y ddogfennaeth, a'r broses hysbysu a chyhoeddi sydd ynghlwm wrth gyflwyno ac archwilio a chyhoeddi argymhellion y person a benodwyd (rheoliadau 23 i 25);
- Pennod 7: Ymyrraeth gan Weinidogion Cymru – y gweithdrefnau a'r trefniadau cyhoeddi a hysbysu wrth gymhwyso pwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru (rheoliadau 26 i 32);
- Pennod 8: Tynnu CDS yn ôl – y gweithdrefnau hysbysu a chyhoeddi mewn perthynas â thynnu CDS yn ôl (rheoliadau 33 i 34);
- Pennod 9: Mabwysiadu CDS gan y Cyd-bwyllgor corfforedig a'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru (rheoliadau 35 i 37);

4.8 Mae **Rhan 3** yn gwneud darpariaeth ar gyfer y camau y mae'n rhaid eu cymryd ar ôl i Weinidogion Cymru ddirymu CDS (rheoliad 38).

4.9 Mae **Rhan 4** yn gwneud darpariaeth ar gyfer adolygu CDS bob chwe blynedd ar ôl iddo gael ei fabwysiadu (rheoliad 39).

4.10 Mae **Rhan 5** yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnwys adroddiad monitro blynyddol a'i gyhoeddi (rheoliad 40)

4.11 Mae **Rhan 6** yn gwneud darpariaeth ar gyfer gofynion o ran argaeledd dogfennau (rheoliad 41).

5. Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ceisio barn ar fwriad polisi'r Rheoliadau CDS rhwng 12 Hydref 2020 a 04 Ionawr 2021. Eglurodd y ddogfen ymgynghori y byddai'r holl ymatebion a fyddai'n dod i law yn cael eu hystyried ac yn galluogi Llywodraeth

Cymru i lywio a chwblhau Rheoliadau'r CDS cyn iddynt gael eu cyhoeddi'n ffurfiol. Mae dolen i'r ddogfen ymgynghori yma:

[Sefydlu Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref \(Cynllun Datblygu Strategol\) \(Cymru\) 2021 | LLYW.CYMRU](https://llyw.cymru/sefydlu-rheoliadau-cynllunio-gwlad-a-thref-cynllun-datblygu-strategol-cymru-2021)

5.2 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ochr yn ochr â'r Rheoliadau CBC drafft. Mae'r ddau ymgynghoriad yn ategu ei gilydd, gydag un yn ymwneud â llywodraethu a gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (Rheoliadau CBC) a'r llall yn ymwneud â gweithdrefnau paratoi'r cynllun (Rheoliadau CDS).

5.3 Tynnwyd sylw ystod eang o randdeiliaid at yr ymgynghoriad ar CDS, gan gynnwys y rhai y mae'r cynigion yn debygol o effeithio'n uniongyrchol arnynt, gan gynnwys unigolion a sefydliadau ACLlau a grwpiau diddordeb arbennig. Cafwyd 40 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a ddaeth i law oddi wrth sefydliadau'r sector cyhoeddus megis ACLlau a Chynghorau Tref a Chymuned.

5.4 Ar y cyfan, cafodd y cynigion a gyflwynwyd yn y papur ymgynghori eu croesawu'n dda gan ymatebwyr, gyda'r mwyafrif yn nodi eu cytundeb cyffredinol ar gyfer cynigion i greu proses llunio cynllun ar gyfer CDSau sy'n adlewyrchu proses bresennol Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn fras. Ystyrir bod y broses statudol bresennol yn gweithio'n effeithiol a bod holl ddefnyddwyr y system yn ei deall yn dda ar y cyfan. Ar y sail hon, ni ystyriwyd bod angen unrhyw newidiadau sylweddol i'r dull polisi a gynigiwyd.

5.5 Roedd rhai sylwadau a dderbyniwyd y tu allan i gwmpas y rheoliadau i fynd i'r afael â hwy, megis materion llywodraethu. Yn ogystal, cododd llawer o ymatebwyr sylwadau dilys a fyddai'n fwy priodol ar gyfer canllawiau newydd a chanllawiau arfaethedig yn ymwneud â chwmpas a chynnwys polisi CDSau. Cyhoeddir crynodeb o'r ymgynghoriad ac ymateb y llywodraeth ochr yn ochr â'r Memorandwm Esboniadol hwn a gellir ei weld yma:

<https://llyw.cymru/sefydlu-rheoliadau-cynllunio-gwlad-thref-cynllun-datblygu-strategol-cymru-2021>

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

6.2 Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu polisïau sydd eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad a thrafodaeth sylweddol. Ystyriwyd y polisïau hyn yn yr Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 6 Gorffennaf 2015. Diwygiodd Deddf 2015 Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 at ddibenion (ymhlith pethau eraill) cyflwyno CDSau i ganiatáu dull mwy strategol o gynllunio ar raddfa y tu hwnt i CDLI.

6.3 Ategwyd Deddf 2015 gan Femorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol (EMRIA) manwl a chynhwysfawr a oedd yn cynnwys costau llunio CDS. Mae dolenni i'r EMRIA a'r papur methodoleg ategol i'w gweld isod. Dônt i'r casgliad y bydd cyflwyno CDSau yn arwain at CDLlau teneuach a mwy cryno, a fydd yn costio llai ac yn gyflymach i'w llunio. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol Deddf 2015 yn dod i'r casgliad y byddai arbedion sylweddol o ran y gost o lunio CDSau a CDLlau 'llai manwl' a fydd yn cael eu gosod oddi tanynt, o gymharu â'r system bresennol o baratoi CDLlau yn unig. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol Deddf 2015 hefyd yn esbonio'r effaith ar y rhanddeiliaid gwahanol sydd ynghlwm wrth y broses.

Adrannau 7.42 – 7.93 o'r EMRIA yw'r adrannau perthnasol sy'n ymwneud â CDSau:

<https://llyw.cymru/memorandwm-esboniadol-y-ddeddf-gynllunio-cymru-2015>

Adrannau 4.0 i 4.51 o'r papur methodoleg yw'r adrannau sy'n berthnasol i CDSau:

<https://llyw.cymru/bil-cynllunio-cymru-papur-methodoleg-yr-asesiad-or-effaith-rheoleiddiol>

6.4 Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fecanwaith statudol newydd ar gyfer cydweithredu rhanbarthol a gwnaeth CBC ddisodli'r cysyniad o Banel Cynllunio Strategol (SPP), sef y cyfrwng cyflenwi gwreiddiol ar gyfer CDSau o dan Ddeddf 2015. Mae Rheoliadau CBC yn darparu ar gyfer y fframwaith llywodraethu a gweithredol ar gyfer y CBC. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Rheoliadau CBC a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar y rheoliadau hynny.

6.5 Roedd RIA Rheoliadau CBC wedi defnyddio RIA Deddf 2015 fel y llinell sylfaen gan ddiweddarau costau llunio 'hanesyddol' CDS i gyfleu'r costau presennol.

6.6 Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Ar sail yr asesiadau uchod a gynhaliwyd eisoes, nid ystyriwyd bod angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol pellach. Mae'r casgliadau yn yr asesiad uchod yn parhau'n ddilys.

6.7 Caiff y darlennydd ei gyfeirio at yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Rheoliadau CBC, sy'n cynnwys y costau amcangyfrifedig wedi'u diweddarau ar gyfer llunio CDSau. Yn benodol (ond nid yn hollgynhwysol) mae paragraffau 33-36, 48-53, a 108-120, yn ymwneud â chostau paratoi cynllun CDS. Gellir ei weld yma:

<https://senedd.cymru/media/asppuikv/sub-ld14134-em-w.pdf>

